# Gwasanaethau Cymdeithiasol

## Codi ffioedd ar Awdurdodau Lleol eraill ar gyfer Gwasanaethau Gweithiwr

## Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy



Hydref 2025

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Trosolwg

| | |
|---|---|
| POLISI | Codi ffioedd ar Awdurdodau Lleol eraill ar gyfer Gwasanaethau Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy |
| CYFEIRNOD | MH10 |
| ADRAN | Gwasanaethau Iechyd Meddwl |
| AWDUR | Jo Taylor, Rheolwr Gwasanaeth, y Gwasanaethau Anabledd ac Iechyd Meddwl |
| DYDDIAD GWEITHREDU | Hydref 2025 |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF | Ebrill 2026 |

Rheoli Fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Medi 2024 | Jo Taylor / Naomi Harper | Polisi Newydd |
| 2 | Medi 2025 | Jo Taylor / Naomi Harper | Adolygiad cylchol. Newidiadau i'r ffioedd a godir yn unol ag adolygiad cyflog |
| | | | |

Ymgynghori a Chymeradwyo

| Fersiwn | Pwy | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | Jane Davies, Uwch Rheolwr Diogelu a Chomisiynu | Hydref 2024 |
| 2 | Jane Davies, Uwch Rheolwr Diogelu a Chomisiynu / Karen Chambers, Uwch Rheolwr Gwasanaethau Integredig, Arwain Oedolion | Hydref 2025 |
| | | |

## Cynnwys

Trosolwg .......... 2

1.0 PWRPAS Y POLISI .......... 4

2.0 POLISI CYFREITHIOL A CHYD-DESTUN .......... 4

3.0 CYFLWYNIAD .......... 4

4.0 TASGAU Y GELLIR EU GWNEUD AR RAN AWDURDODAU LLEOL ERAILL .......... 4

4.1 Cynnal asesiad pan efallai bydd angen cadw'r unigolyn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl .......... 5

4.2 Cefnogaeth ategol – amddiffyn plant, anifeiliaid anwes ac eiddo .......... 5

4.3 Dyletswyddau mewn perthynas â Gorchmynion Triniaeth Gymunedol .......... 6

4.4 Dyletswyddau mewn perthynas â chadw neu ymestyn Gorchymyn Triniaeth Gymunedol .......... 6

4.5 Tasgau y gall staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion eu gwneud yn hytrach na Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy .......... 7

5.0 PROSES CODI FFIOEDD .......... 8

6.0 ATODIADAU .......... 9

6.1 Atodiad 1 – Graddfa Ffioedd a Chostau (2024/25) .......... 9

6.2 Atodiad 2 – Ffurflen Adennill .......... 10

## 1.0 PWRPAS Y POLISI

Mae'r polisi'n nodi canllawiau ar:

- Waith y gall Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy ymgymryd ag o ar gyfer Awdurdodau Lleol eraill
- Y broses y dylai Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ei dilyn i alluogi codi ffi.

## 2.0 POLISI CYFREITHIOL A CHYD-DESTUN

- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl (Cymru)
- Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## 3.0 CYFLWYNIAD

Wrth i gymdeithas ac unigolion o fewn cymdeithas fod yn fwy symudol, bydd achlysuron pan ofynnir i Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy Cyngor Sir y Fflint wneud gwaith ar ran Awdurdodau Lleol eraill mewn perthynas â phobl sydd fel arfer yn breswyl yn yr Awdurdodau hynny, ond yn bresennol yn gorfforol yn Sir y Fflint.

**Os yw adnoddau Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ar gael, gellir gwneud y gwaith hwn, serch hynny, bydd yr Awdurdod Lleol arall yn talu amdano. Mae hyn yn gymwys i bob awdurdod lleol arall tu allan i Ogledd Cymru. Mae gan y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru (Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn) gytundeb i beidio codi'r ffioedd hyn yn erbyn ei gilydd.**

## 4.0 TASGAU Y GELLIR EU GWNEUD AR RAN AWDURDODAU LLEOL ERAILL

Mae'r mathau o dasgau y gellir eu gwneud yn disgyn i mewn i bedwar grŵp eang cyffredinol:

- Cynnal asesiad pan efallai bydd angen cadw'r unigolyn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Cefnogaeth ategol – amddiffyn plant, anifeiliaid anwes ac eiddo
- Dyletswyddau mewn perthynas â Gorchmynion Triniaeth Gymunedol
- Dyletswyddau mewn perthynas â chadw neu ymestyn Gorchymyn Triniaeth Gymunedol

## 4.1 Cynnal asesiad pan efallai bydd angen cadw'r unigolyn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

Mae'r math hwn o waith yn aml yn annisgwyl, ac mae angen ymateb ar frys.

Dylid archwilio'r ffordd leiaf cyfyngedig o alluogi'r unigolyn i dderbyn y driniaeth sydd arnynt ei hangen, megis derbyniad anffurfiol â chaniatâd, neu ddefnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl os nad oes gan yr unigolyn allu i roi neu wrthod caniatâd, cyn y penderfyniad i wneud cais am dderbyniad gorfodol i'r ysbyty.

Os oes angen derbyniad gorfodol, mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd dan Adran (a) 14.26 Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl (Cymru) i drefnu bod Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ystyried achos unrhyw glaf o fewn eu hardal, ac os felly, os yw a2 neu 4 yn cael ei hystyried fel yr ymateb mwyaf priodol mewn argyfwng, dylid gwneud hyn, ac ni chodir ffi.

Dylid nodi beth yw cyfeiriad arferol yr unigolyn cyn gynted â phosib, a chysylltu gyda'u Hawdurdod cartref i'w hysbysu bod cais wedi'i wneud i'w cadw ar eu rhan, mewn perthynas â rhywun maent yn gyfrifol amdanynt, a'u hysbysu os oes angen eu cadw dan a3. Eu cyfrifoldeb nhw yw trefnu neu gomisiynu.

Fel y manylir yn a14.27 cod ymarfer (Cymru) ar gyfer achosion pan mae claf eisoes yn cael ei gadw dan adran 2 o ganlyniad i gais a wnaed gan y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, bydd Awdurdod Lleol yr oedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn gweithio ar eu rhan yn gyfrifol am drefnu Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy i ystyried achos claf eto, os oes gan yr Awdurdod Lleol rheswm i gredu bod angen gwneud cais dan adran 3. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os yw'r claf yn cael ei gadw tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol hwnnw.

Os yw'r Awdurdod yn gofyn i Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy Sir y Fflint wneud y cais a'r drwydded adnoddau, dylai'r Gweithiwr Iechyd hwnnw hysbysu'r Awdurdod Cartref yn ysgrifenedig (mae neges electronig dros e-bost yn dderbyniol) y bydd ffi yn cael ei godi am hyn. Mae graddfa'r ffioedd y dylid ei defnyddio i'w gweld yn **Atodiad 1**. Caiff y raddfa hon o ffioedd ei hadolygu'n flynyddol.

## 4.2 Cefnogaeth ategol – amddiffyn plant, anifeiliaid anwes ac eiddo

Yn unol ag a14.80 cod ymarfer (Cymru) cyn gwneud cais, dylai Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith ar gyfer gofal brys unrhyw blant dibynnol efallai sydd gan y claf, ac unrhyw oedolion sy'n dibynnu ar y claf am eu gofal.

Dylid bod anghenion unrhyw blant / oedolion sy'n dibynnu ar y claf wedi cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad.

Pan fo'n berthnasol, dylai'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy sicrhau bod trefniadau ymarferol ar waith ar gyfer gofalu am unrhyw anifeiliaid anwes, a bod yr Awdurdod Lleol yn cynnal ei gyfrifoldebau eraill dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddiogelu cartref y claf ac amddiffyn eu heiddo.

Os yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy gynnal unrhyw dasgau dan a14.80, yna dylid hysbysu'r Awdurdod cartref o unrhyw ffi a fydd yn cael ei godi

bob awr ar gyfer amser y Gweithiwr Iechyd hwnnw, yn ogystal ag unrhyw dreuliau a achoswyd. (Gweler Atodiad 1).

## 4.3 Dyletswyddau mewn perthynas â Gorchmynion Triniaeth Gymunedol

Mae'r penderfyniad ai Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yw'r dewis cywir ar gyfer unrhyw glaf yn cael ei wneud gan y clinigwr sy'n gyfrifol ac yn galw am gytundeb y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy.

Wrth wneud penderfyniad am Orchymyn Triniaeth Gymunedol, dylai'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy:

- Benderfynu a ddylent gytuno gyda'r clinigwr sy'n gyfrifol am y claf, eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Gorchymyn Triniaeth Gymunedol ac (os felly) a yw Gorchymyn o'r fath yn briodol.
- Dylent gwrdd â'r claf cyn penderfynu cytuno a ddylid gwneud Gorchymyn Triniaeth Gymunedol ai peidio. Hyd yn oed os yw'r meini prawf ar gyfer Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yn cael eu bodloni, nid yw'n golygu y dylid rhyddhau'r claf ar Orchymyn o'r fath. Gan wneud y penderfyniad hwnnw, dylai'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ystyried y cyd-destun cymdeithasol ehangach ar gyfer y claf.

Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer sicrhau bod Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ystyried achos Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yn perthyn i'r Awdurdod Lleol sy'n dod yn gyfrifol am ôl-ofal claf os ydynt yn cael eu rhyddhau.

Os yw'r clinigwr cyfrifol yn teimlo y dylid dirymu Gorchymyn Triniaeth Gymunedol, mae'n rhaid cael cytundeb y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy.

Wrth wneud penderfyniad am ddirymu Gorchymyn Triniaeth Gymunedol, dylai'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy:

- Ystyried y cyd-destun cymdeithasol ehangach ar gyfer yr unigolyn dan sylw, yn yr un modd â gwneud penderfyniadau am geisiadau ar gyfer derbyniad.

Os nad oes modd i Awdurdod Lleol ddarparu Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy i ymgymryd â'r dyletswyddau a restrir uchod dan yr adran hon, neu maent yn gofyn i Sir y Fflint eu cyflawni ar ei ran, a bod adnoddau Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn eu caniatáu, mae'n rhaid i'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy hwnnw eu hysbysu'n ysgrifenedig o'r ffi a godir. (Gweler Atodiad 1).

## 4.4 Dyletswyddau mewn perthynas â chadw neu ymestyn Gorchymyn Triniaeth Gymunedol

Mae cod ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gadael y penderfyniad ar gyfer adnewyddu cyfnod cadw, neu estyniad i Orchymyn Triniaeth Gymunedol gyda'r clinigwr cyfrifol mewn ymgynghoriad gydag eraill. Mae'r dyletswyddau sy'n ymwneud â hyn i'w gweld isod:

- Pan mae clinigwr cyfrifol yn fodlon bod y meini prawf ar gyfer adnewyddu cyfnod cadw'r claf wedi'u diwallu, mae'n rhaid iddynt gyflwyno adroddiad i reolwyr yr ysbyty.

- Cyn y gall clinigwyr cyfrifol gyflwyno'r adroddiad hwnnw, mae gofyn iddynt gael cytundeb ysgrifenedig gweithiwr iechyd proffesiynol arall (yr ail weithiwr proffesiynol) bod y meini prawf wedi'u bodloni. Mae'n rhaid i'r ail weithiwr proffesiynol ymgysylltu'n broffesiynol gyda thriniaeth y claf, a pheidio perthyn i'r un proffesiwn â'r clinigwr cyfrifol. Nid yw'r Ddeddf yn manylu pwy ddylai'r ail weithiwr proffesiynol fod, gall fod yn Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, neu ddim.
- Dim ond clinigwyr cyfrifol all ymestyn cyfnod y Gorchymyn Triniaeth Gymunedol. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i glinigwyr archwilio eu claf a phenderfynu, yn ystod deufis yn arwain at ddyddiad terfyn Gorchymyn Triniaeth Gymunedol y claf, a yw'r meini prawf ar gyfer ymestyn y Gorchymyn dan a20A y Ddeddf yn cael eu bodloni. Mae'n rhaid iddynt ymgynghori gydag un unigolyn arall neu fwy, sydd wedi ymwneud yn broffesiynol gyda thriniaeth feddygol y claf.
- Wrth benderfynu a ddylid ymestyn cyfnod Gorchymyn Triniaeth Gymunedol, dylai'r clinigwr cyfrifol, ail weithiwr proffesiynol a Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ystyried yn ofalus a yw'r meini prawf ar gyfer ymestyn y Gorchymyn wedi'u bodloni ai peidio, ac os felly, a yw ei ymestyn yn briodol.
- Pan mae clinigwyr cyfrifol yn fodlon bod y meini prawf ar gyfer ymestyn Gorchymyn Triniaeth Gymunedol wedi'u diwallu, mae'n rhaid iddynt gyflwyno adroddiad i reolwyr yr ysbyty cyfrifol, yn egluro eu rhesymau.

Cyn y gall clinigwyr cyfrifol gyflwyno'r adroddiad hwnnw, mae'n rhaid iddynt gael cytundeb ysgrifenedig gan Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy. Dylai clinigwyr cyfrifol sicrhau bod y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cael digon o rybudd er mwyn gallu cynnal cyfweliad gyda'r claf os yw hynny'n briodol.

Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer sicrhau bod Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ystyried achos yn perthyn i'r Awdurdod Lleol sy'n dod yn gyfrifol am ôl-ofal y claf.

Os nad oes modd i Awdurdod Lleol ddarparu Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy i ymgymryd â'r dyletswyddau a restrir uchod dan yr adran hon, neu maent yn gofyn i Sir y Fflint eu cyflawni ar ei ran, a bod adnoddau Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn eu caniatáu, mae'n rhaid i'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy hwnnw eu hysbysu'n ysgrifenedig o'r ffi a godir. (Gweler Atodiad 1).

## 4.5 Tasgau y gall staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion eu gwneud yn hytrach na Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy

Yn ychwanegol i'r tasgau a restrir uchod, efallai bydd angen i Weithiwr Cymdeithasol neu staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion gynnal asesiadau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) er mwyn cefnogi neu ategu at waith cynllunio ar gyfer ôl-ofal dan a117. Os felly, efallai bydd angen ar gyfer cefnogaeth gynllunio, comisiynu a monitro cymorth ac ail asesiadau rheolaeth i adolygu anghenion a chymorth.

Os nad oes modd i Awdurdod Lleol ddarparu Gweithiwr Cymdeithasol i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn, neu maent yn gofyn i Sir y Fflint eu cyflawni ar ei ran, a bod adnoddau Gwaith Cymdeithasol yn eu caniatáu, mae'n rhaid i'r Rheolwr Tîm hwnnw y byddai ffi asesiad a ffi bob awr yn cael ei godi. (Gweler Atodiad 1).

## 5.0 PROSES CODI FFIOEDD

Cysylltu â'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy i wneud cais am asesiad o'r unigolyn

⬇

Y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn casglu'r wybodaeth gychwynnol, gan gynnwys cadarnhau cyfeiriad cartref arferol yr unigolyn.

⬇

Pan mae cadarnhad nad yw cyfeiriad arferol yr unigolyn o fewn Sir y Fflint, bydd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn cysylltu â'r awdurdod lleol cartref i drafod cynnal asesiad, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol bod hwn yn wasanaeth am dâl, ac yn cael awdurdodiad ysgrifenedig er mwyn parhau â'r gwaith.

⬇

Pan mae'r gwaith y cytunwyd arno wedi cael ei wneud, bydd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn anfon ffurflen adennill wedi'i chwblhau (gweler Atodiad 2) at y Cynorthwy-ydd Cefnogi Busnes / Cymhorthydd Personol Uwch Reolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Anableddau a fydd yn olrhain y cais a'i gyflwyno i'r Tîm Asesiad Ariannol a Chodi Ffioedd (FACTresidential@flintshire.gov.uk a claire.morris@flintshire.gov.uk)

⬇

Bydd y Tîm Asesiad Ariannol a Chodi Ffioedd yn cynhyrchu anfoneb i'r awdurdod lleol perthnasol i adennill y ffioedd (cod y Gyllideb: SMS111)

# 6.0 ATODIADAU

## 6.1 Atodiad 1 – Graddfa Ffioedd a Chostau (2025/26)

| Tasg | Ffi |
|---|---|
| Cais Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy i gadw claf | £400 a threuliau, yn ogystal â ffioedd y llys<br>Gall treuliau gynnwys costau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy neu'r Awdurdod Lleol megis darpariaeth dehonglydd neu gyfieithydd ar gyfer unigolyn byddar, neu rywun nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, neu eiriolwr. |
| Cyfradd ffioedd Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy bob awr:<br>Gweithiwr Cymdeithasol gyda Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy<br>Uwch Weithiwr Cymdeithasol gyda Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy<br>Dirprwy Reolwr Tîm gyda Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy | Ffi a godir bob awr:<br>£34.55<br>£37.49<br>£37.49 |
| Ffi asesiad gwaith cymdeithasol (yn gymwys hefyd ar gyfer ail asesiad yn dilyn adolygiad) | £400 |
| Cyfradd ffioedd gweithiwr cymdeithasol:<br>Uwch Weithiwr Cymdeithasol<br>Gweithiwr Cymdeithasol | Ffi a godir bob awr:<br>£31.68<br>£28.65 |

## 6.2 Atodiad 2 – Ffurflen Adennill

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy | | | |
| Enw'r defnyddiwr gwasanaeth | | | |
| Yr Awdurdod Lleol y codir ffi arnynt | | | |
| Enw'r swyddog awdurdodi yn yr Awdurdod Lleol | | | |
| Cyfeiriad e-bost y swyddog awdurdodi yn yr Awdurdod Lleol | | | |
| Manylion y gwaith a wnaed | | | |
| Crynodeb o'r oriau y codir amdanynt | | | |
| Cyfanswm y ffi | | | |
| Llofnod (Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy) | | Dyddiad | |

Anfoner y ffurflen at FACTresidential@flintshire.gov.uk